



CYNULLIAD CENEDLAETHOL CYMRU

NATIONAL ASSEMBLY FOR WALES

OFFERYNNAU STATUDOL

STATUTORY INSTRUMENTS

2006 Rhif 1714 (Cy.176)

2006 No. 1714 (W.176)

ADDYSG, CYMRU

EDUCATION, WALES

**Rheoliadau Addysg (Arolygu
Ysgolion) (Cymru) 2006**

**The Education (School Inspection)
(Wales) Regulations 2006**

NODYN ESBONIADOL

EXPLANATORY NOTE

(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Gorchymyn)

(This note is not part of the Regulations)

Mae Rhan 1 o Ddeddf Addysg 2005 ("Deddf 2005") yn ailddeddfu (gydag addasiadau) Ddeddf Arolygiadau Ysgolion 1996 ("Deddf 1996") o ran Cymru. Mae system arolygiadau ysgolion ar wahân (a gwahanol) yn gymwys i Loegr. Fel yn Neddf 1996, ceir yn Neddf 2005 hithau fframwaith statudol ar gyfer arolygu ysgolion, ond mae'n gadael i'r Rheoliadau a wneir gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru ymdrin â llawer o'r manylion. Mae'r Rheoliadau hyn, a wneir o dan y darpariaethau a ailddeddfwyd yn Neddf 2005, yn rhagnodi'r manylion hynny. Maent yn atgyfnerthu gan fwyaf y darpariaethau a geir yn Rheoliadau Addysg (Arolygu Ysgolion) (Cymru) 1998, fel y'u diwygiwyd, sef y Rheoliadau y maent yn eu disodli. Maent hefyd yn atgyfnerthu Rheoliadau Addysg (Arolygwyr Cofrestredig) (Ffioedd) 1992. Crynhoir isod brif ddarpariaethau'r Rheoliadau hyn gan dynnu sylw at unrhyw newidiadau arwyddocaol i Rheoliadau 1998. Cyfeiriadau at adrannau a Rhannau o Ddeddf 2005 a'r Atodlenni iddi yw'r cyfeiriadau isod yn y Nodyn Esboniadol hwn.

Part 1 of the Education Act 2005 ("the 2005 Act") re-enacts (with modifications) the School Inspections Act 1996 ("the 1996 Act") in relation to Wales. A separate (and different) system of school inspections applies to England. Like the 1996 Act, the 2005 Act sets out a statutory framework for the inspection of schools, but leaves much of the details to be dealt with in Regulations made by the National Assembly for Wales. These Regulations, which are made under the re-enacted provisions in the 2005 Act, prescribe those details. They largely consolidate the provisions contained in the Education (School Inspection) (Wales) Regulations 1998, as amended, which they replace. They also consolidate the Education (Registered Inspectors) (Fees) Regulations 1992. The main provisions of these Regulations are summarised below, with any significant changes from the 1998 Regulations highlighted. References below in this Explanatory Note to sections, Parts and Schedules (without more) are to sections and Parts of, and Schedules to, the 2005 Act.

Mae Rhan 1 yn ymwneud â materion cyffredinol.

Part 1 deals with general matters.

Mae rheoliad 2 yn dirymu Rheoliadau Addysg (Arolygu Ysgolion) (Cymru) 1998 (fel y'u diwygiwyd) a Rheoliadau Addysg (Arolygwyr Cofrestredig) (Ffioedd) 1992. Mae hefyd yn gwneud diwygiad canlyniadol i Rheoliadau Cyfarfod Blynyddol Rhieni (Esemptiadau) (Cymru) 2005.

Regulation 2 revokes the Education (School Inspection) (Wales) Regulations 1998 (as amended) and the Education (Registered Inspectors) (Fees) Regulations 1992. It also makes a consequential amendment to the Annual Parents' Meeting (Exemptions) (Wales) Regulations 2005.

Mae rheoliad 3 yn diffinio termau ac ymadroddion a ddefnyddir yn y Rheoliadau drwyddynt draw. Mae paragraff (3) o'r rheoliad hwnnw (i bob pwrpas) yn cywiro camgymeriad yn Neddf 2005.

Regulation 3 defines terms and expressions used throughout the Regulations. Paragraph (3) of that regulation (effectively) corrects an error in the 2005 Act.

Mae Rhan 2 yn ymwneud ag arolygiadau ysgolion.

Part 2 deals with school inspections.

Mae rheoliad 4 yn diffinio'r termau a'r ymadroddion a ddefnyddir yn Rhan 2.

Mae rheoliad 5 yn rhagnodi ffi o £150 ar gyfer ymgofrestru'n arolygydd cofrestredig o dan adran 25.

Mae rheoliad 6 yn darparu bod arolygiadau'n cael eu cynnal bob chwe blynedd o'r amser yr arolygwyd yr ysgol ddiwethaf neu, os nad adolygwyd yr ysgol o'r blaen, o'r amser y derbyniwyd disgyblion gyntaf i'r ysgol.

Mae rheoliad 7 yn rhestru'r personau hynny y mae'n rhaid i'r awdurdod priodol eu hysbysu (fel arfer corff llywodraethu'r ysgol - gweler rheoliad 4(1)) ynghylch pryd y mae'r arolygiad i'w gynnal.

Mae rheoliad 8 yn nodi'r trefniadau sydd i'w gwneud gan yr awdurdod priodol ar gyfer cynnal cyfarfod rhieni etc cyn arolygiad, ac mae'n darparu mai dim ond y personau hynny a restrir a gaiff fod yn bresennol yn y cyfarfod. Yn ddarostyngedig i hynny, mae'n darparu bod yr arolygydd sy'n arwain yr arolygiad yn rheoli'r cyfarfod.

Mae rheoliad 9 yn darparu bod arolygiad i'w gwblhau o fewn pythefnos, a bod adroddiad ar yr arolygiad i'w gwblhau o fewn 35 o ddiwrnodau gwaith (fel a ddiffinnir yn rheoliad 3) i'r dyddiad y cwblhawyd yr arolygiad. Mae hefyd yn ei gwneud yn ofynnol i'r awdurdod priodol neu'r perchennog gymryd camau rhesymol ymarferol i sicrhau bod y rhieni'n cael crynodeb o'r adroddiad (y mae gan rieni hawl iddo o dan adran 38 (4) neu 41(4) o'r Ddeddf) o fewn deng niwrnod gwaith i'r amser y mae'r awdurdod neu'r perchennog yn cael yr adroddiad. Yn wahanol i'w ragflaenydd, nid yw'r rheoliad hwn yn gymwys i ysgolion annibynnol (sydd erbyn hyn yn ddarostyngedig i'w harolygu o dan Ddeddf 2002, fel y'i diwygiwyd gan Atodlen 8).

Mae rheoliad 10 yn ei gwneud yn ofynnol i'r awdurdod priodol neu'r perchennog baratoi cynllun gweithredu o fewn y cyfnod o ddeugain a phump o ddiwrnodau gwaith i'r dyddiad y mae'n cael yr adroddiad, ac iddo anfon copïau i'r personau a'r cyrff hynny sydd â'r hawl i gael copïau o fewn cyfnod a bennir yn y rheoliad hwnnw (sy'n amrywio yn ôl p'un a yw ysgol wedi'i dynodi'n ysgol sy'n peri pryder ai peidio). Y rhai y cyfeirir atynt yn y Ddeddf ac a ragnodir ym mharagraff (3) o reoliad 10 yw'r personau a'r cyrff dan sylw. Yn wahanol i'w ragflaenydd, nid yw'r rheoliad hwn yn gymwys i ysgolion annibynnol (sydd bellach yn ddarostyngedig i'w harolygu o dan Ddeddf 2002, fel y'i diwygiwyd gan Atodlen 8).

Mae rheoliad 11 yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdod addysg lleol baratoi'r datganiad y mae'n ofynnol iddo ei baratoi o dan adran 40(3)(a) o fewn cyfnod a bennir yn y rheoliad hwnnw.

Mae rheoliad 12 yn caniatáu codi ffioedd am adroddiadau arolygu, crynodebau a chynlluniau gweithredu (ffioedd nad ydynt yn fwy na'r gost o'u

Regulation 4 defines terms and expressions used in Part 2.

Regulation 5 prescribes a fee of £150 for registration under section 25 as a registered inspector.

Regulation 6 provides for inspections to take place at intervals of six years from when the school was last inspected or, where there has been no previous inspection, from when it first admitted pupils.

Regulation 7 lists those persons who must be notified by the appropriate authority (normally the governing body of the school - see regulation 4(1)) of the time when the inspection is to take place.

Regulation 8 sets out the arrangements to be made by the appropriate authority for a meeting of parents etc prior to an inspection, and provides that only those persons listed may attend the meeting. Subject to that, it provides for the inspector conducting the inspection to have control of the meeting.

Regulation 9 provides that an inspection is to be completed within two weeks, and that a report of the inspection is to be completed within 35 working days (as defined in regulation 3) of the date on which the inspection was completed. It also requires the appropriate authority or proprietor to take reasonably practicable steps to ensure that a summary of the report (to which parents are entitled under section 38 (4) or 41(4) of the Act) is received by parents within ten working days from the receipt of the report by the authority or proprietor. Unlike its predecessor, this regulation does not apply to independent schools (which are now subject to inspection under the 2002 Act, as amended by Schedule 8).

Regulation 10 requires the appropriate authority or proprietor to prepare an action plan within the period of forty five working days from the date on which they receive the report, and to send copies to those persons and bodies entitled to receive copies within a period specified in that regulation (which varies according to whether the school is identified as a school causing concern). The persons and bodies concerned are those referred to in the Act and prescribed in paragraph (3) of regulation 10. Unlike its predecessor, this regulation does not apply to independent schools (which are now subject to inspection under the 2002 Act, as amended by Schedule 8).

Regulation 11 requires a local education authority to prepare the statement they are required to prepare under section 40(3)(a) within a period specified in that regulation.

Regulation 12 permits fees (not exceeding the cost of supply) to be charged for inspection reports, summaries and action plans in the cases specified in

cyflenwi) yn yr achosion a bennir yn y rheoliad hwnnw.

Mae Rhan 3 yn ymwneud ag arolygu addysg enwadol.

Mae rheoliad 13 yn diffinio'r termau a'r ymadroddion a ddefnyddir yn Rhan 3.

Mae rheoliad 14 yn darparu bod y cyfryw arolygiadau yn cael eu cynnal bob chwe blynedd o'r amser yr arolygwyd y ddarpariaeth ddiwethaf neu, os nad adolygwyd y ddarpariaeth o'r blaen, o'r adeg y derbyniwyd disgyblion gyntaf i'r ysgol.

Gwneir rheoliad 15 o dan bŵer newydd. Mae'n darparu ar gyfer ymgynghori â'r awdurdod esgobaethol priodol ynghylch dewis arolygydd.

Mae rheoliad 16 yn rhagnodi cyfnodau y mae'r cyfryw arolygiadau i'w gwneud ynddynt, y mae adroddiad arolygu a chynllun gweithredu i'w paratoi, ac y mae cynllun gweithredu i'w anfon i'r sawl sydd â hawl i gael copi ohono. Y personau y cyfeirir atynt yn y Ddeddf a'r personau ychwanegol a ragnodir gan baragraff (6), os byddant yn gofyn am gopi, yw'r personau hynny.

Mae rheoliad 17 yn rhagnodi achosion pan ganiateir codi ffi am gopi o adroddiad arolygu, crynodeb neu o gynllun gweithredu (ffi nad yw'n fwy na'r gost o'i gyflenwi).

Mae Rhan 4 yn gwneud darpariaeth mewn perthynas â gwasanaethau arolygu ysgolion yr awdurdod addysg lleol.

Mae rheoliad 18 yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdod gadw cyfrifon o ran y cyfryw wasanaeth.

that regulation.

Part 3 deals with inspections of denominational education.

Regulation 13 defines terms and expressions used in Part 3.

Regulation 14 provides for such inspections to take place at intervals of six years from when the provision was last inspected or, where there has been no previous inspection of the provision, from when the school first admitted pupils.

Regulation 15 is made under a new power. It provides for consultation with the appropriate diocesan authority on the choice of inspector.

Regulation 16 prescribes periods within which such inspections are to be carried out, an inspection report and action plan are to be prepared, and an action plan is to be sent to those entitled to receive a copy of it. Those persons are the persons referred to in the Act and, if they so request, the additional persons prescribed by paragraph (6).

Regulation 17 prescribes cases in which a fee (not exceeding the cost of supply) may be charged for a copy of an inspection report, summary or action plan.

Part 4 makes provision in relation to local education authority school inspection services.

Regulation 18 requires an authority to keep accounts in respect of such a service.

2006 Rhif 1714 (Cy.176)**2006 No. 1714 (W.176)****ADDYSG, CYMRU****EDUCATION, WALES****Rheoliadau Addysg (Arolygu Ysgolion) (Cymru) 2006****The Education (School Inspection) (Wales) Regulations 2006***Wedi'u gwneud* 27 Mehefin 2006*Made* 27 June 2006*Yn dod i rym* 1 Medi 2006*Coming into force* 1 September 2006

Drwy arfer y pwerau a roddwyd gan adrannau 25(3)(b), 28(1) ac (8), 36(2), 38(4), 39(2), (3), (5) a (7)(b), 40(3), 41(4), 42(2)(a), (3)(c), (4) a (5), 50(2), (4) ac (8), 52(5)(b), 120(2) a 124(1) a (3) o Ddeddf Addysg 2005(1) a pharagraff 6 o Atodlen 4 iddi, a pharagraffau 2(1), (2) a (4) a 3(1), (2) a (3) o Atodlen 6 iddi, mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru drwy hyn yn gwneud y Rheoliadau a ganlyn:

In exercise of the powers conferred by sections 25(3)(b), 28(1) and (8), 36(2), 38(4), 39(2), (3), (5) and (7)(b), 40(3), 41(4), 42(2)(a), (3)(c), (4) and (5), 50(2), (4) and (8), 52(5)(b), 120(2) and 124(1) and (3) of, and paragraph 6 of Schedule 4 and paragraphs 2(1), (2) and (4) and 3(1), (2) and (3) of Schedule 6 to, the Education Act 2005(1), the National Assembly for Wales hereby makes the following Regulations:

RHAN 1**PART 1**

Cyffredinol

General

Enwi a chychwyn

1. Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Addysg (Arolygu Ysgolion) (Cymru) 2006 a deuant i rym ar 1 Medi 2006.

Title and commencement

1. The title of these Regulations is the Education (School Inspections) (Wales) Regulations 2006 and they come into force on 1 September 2006.

Dirymu a diwygio

2.-(1) Dirymir Rheoliadau Addysg (Arolygu Ysgolion) (Cymru) 1998(2), Rheoliadau Addysg (Arolygu Ysgolion) (Cymru) (Diwygio) 1999(3) a Rheoliadau Addysg (Arolygu Ysgolion) (Diwygio) (Cymru) 2004(4).

Revocation and amendment

2.-(1) The Education (School Inspection) (Wales) Regulations 1998(2), the Education (School Inspection) (Wales) (Amendment) Regulations 1999(3) and the Education (School Inspection) (Amendment) (Wales) Regulations 2004(4) are revoked.

(1) 2005 c.18. Am ystyr rheoliadau a rhagnodi gweler adrannau 31, 43 a 50 (8) am "regulations" a "prescribed".

(2) O.S.1998/1866.

(3) O.S. 1999/1440.

(4) O.S. 2004/784 (Cy.81).

(1) 2005 c.18. For the meaning of "regulations" and "prescribed" see sections 31, 43 and 50 (8).

(2) S.I.1998/1866.

(3) S.I. 1999/1440.

(4) S.I. 2004/784 (W.81).

(2) Dirymir o ran Cymru Reoliadau Addysg (Arolygwyr Cofrestredig) (Ffioedd) 1992(1).

(3) Yn Rheoliadau Cyfarfod Blynyddol Rhieni (Esemptiadau) (Cymru) 2005(2)-

- (a) ym mharagraff (a) o reoliad 5, yn lle "adran 10 o Ddeddf Arolygu Ysgolion 1996" rhodder "adran 28 o Ddeddf Addysg 2005"; a
- (b) ym mharagraff (b) o'r rheoliad hwnnw, yn lle "a ragnodwyd yn rheoliad 8(1) o Reoliadau Addysg (Arolygu Ysgolion) (Cymru) 1998" rhodder "a ragnodwyd gan reoliadau neu a gyfarwyddwyd gan y Cynulliad Cenedlaethol o dan adran 39(2) neu 42(2) o'r Ddeddf honno".

Dehongli: cyffredinol

3.-(1) Yn y Rheoliadau hyn-

mae i "awdurdod esgobaethol priodol", "ysgol yr Eglwys yng Nghymru", "ysgol Eglwys Loegr" ac "ysgol yr Eglwys Gatholig Rufeinig", ym mhob achos, yr ystyron a roddir i "appropriate diocesan authority", "*Church in Wales school*", "*Church of England school*" a "*Roman Catholic school*" gan adran 142(1) o Ddeddf Safonau a Fframwaith Ysgolion 1998(3);

ystyr "y Cynulliad Cenedlaethol" ("*the National Assembly*") yw Cynulliad Cenedlaethol Cymru;

ystyr "Deddf 1996" ("*the 1996 Act*") yw Deddf Arolygu Ysgolion 1996(4) (a ddirymir gan Ddeddf 2005);

ystyr "Deddf 2005" ("*the 2005 Act*") yw Deddf Addysg 2005;

ystyr "diwrnod gwaith" ("*working day*") yw diwrnod nad yw'n ddydd Sadwrn, yn ddydd Sul, yn ŵyl banc nac yn rhan o wyliau sy'n hwy nag wythnos a gymerir gan yr ysgol dan sylw; ac

ystyr "gŵyl banc" ("*bank holiday*") yw diwrnod sy'n ŵyl banc yng Nghymru o dan Ddeddf Bancio a Thrafodion Ariannol 1971(5).

(2) Pan fo'r Rheoliadau hyn yn ei gwneud yn ofynnol i weithred gael ei gwneud o fewn cyfnod penodedig yn cychwyn ar ddyddiad penodedig mae'r cyfnod yn cychwyn yn union ar ôl y dyddiad hwnnw.

(1) O.S.1992/2025.

(2) OS.2005/2911 (Cy.208).

(3) 1998 p.31, fel y'i diwygiwyd gan O.S. 2003/3037.

(4) 1996 p.57.

(5) 1971 p.80.

(2) The Education (Registered Inspectors) (Fees) Regulations 1992(1) are revoked in relation to Wales.

(3) In the Annual Parents' Meeting (Exemptions) (Wales) Regulations 2005(2) -

- (a) in paragraph (a) of regulation 5, for "section 10 of the School Inspections Act 1996" substitute "section 28 of the Education Act 2005"; and
- (b) in paragraph (b) of that regulation, for "prescribed by regulation 8(1) of the Education (School Inspection) (Wales) Regulations 1998" substitute "prescribed by regulations under, or directed by the National Assembly under, section 39(2) or 42(2) of that Act".

Interpretation: general

3.-(1) In these Regulations-

"the 1996 Act" ("*Deddf 1996*") means the School Inspections Act 1996(3) (which is revoked by the 2005 Act);

"the 2005 Act" ("*Deddf 2005*") means the Education Act 2005;

"appropriate diocesan authority" ("*awdurdod esgobaethol priodol*"), "Church in Wales school" ("*ysgol yr Eglwys yng Nghymru*"), "Church of England school" ("*ysgol Eglwys Loegr*") and "Roman Catholic school" ("*ysgol yr Eglwys Gatholig Rufeinig*"), in each case, have the meanings given by section 142(1) of the School Standards and Framework Act 1998(4);

"bank holiday" ("*gwyl banc*") means a day which is a bank holiday in Wales under the Banking and Financial Dealings Act 1971(5);

"the National Assembly" ("*y Cynulliad Cenedlaethol*") means the National Assembly for Wales; and

"working day" ("*diwrnod gwaith*") means a day which is not a Saturday, a Sunday, a bank holiday or part of a holiday longer than a week taken by the school in question.

(2) Where these Regulations require an act to be done within a specified period from a specified date the period begins immediately after that date.

(1) S.I.1992/2025.

(2) S.I.2005/2911 (W.208).

(3) 1996 c.57.

(4) 1998.c.31, as amended by S.I. 2003/3037.

(5) 1971 c.80.

(3) Er mwyn rhoi effaith lawn i adran 41(4)(c), mae'r cyfeiriad yn y ddarpariaeth honno at "the authority" i'w ddarllen, at ddibenion rheoliad 9(3), fel cyfeiriad at berchennog yr ysgol.

(4) Mae unrhyw gyfeiriad yn y Rheoliadau hyn at adran neu at Atodlen (heb ymhelaethu ymhellach) yn gyfeiriad at adran o Ddeddf 2005 neu at Atodlen iddi.

RHAN 2

Arolygu Ysgolion

Dehongli: Rhan 2

4.-(1) Yn y Rhan hon o'r Rheoliadau hyn-

ystyr "aelod o'r Arolygiaeth" ("*member of the Inspectorate*") yw'r Prif Arolygydd, unrhyw un neu rai o Arolygwyr Addysg a Hyfforddiant Ei Mawrhydi yng Nghymru ac unrhyw arolygydd ychwanegol a benodir o dan baragraff 2 o Atodlen 2;

ystyr "arolygiad" ("*inspection*") yw arolygiad o dan Bennod 3 o Ran 1 o Ddeddf 2005 (gan gynnwys arolygiad adran 28);

ystyr "arolygiad adran 28" ("*section 28 inspection*") yw arolygiad o dan adran 28;

ystyr "arolygydd cofrestredig" ("*registered inspector*") yw arolygydd a gofrestrwyd o dan adran 25;

ystyr "awdurdod priodol" ("*appropriate authority*"), mewn perthynas ag ysgol a gynhelir, yw corff llywodraethu'r ysgol neu, os nad oes gan yr ysgol gyllideb ddirprwyedig, yr awdurdod addysg lleol (yn ddarostyngedig, fodd bynnag, i reoliad 7(2));

mae i "cyllideb ddirprwyedig" yr ystyr sydd i "*delegated budget*" yn adran 49 o Ddeddf Safonau a Fframwaith Ysgolion 1998;

ystyr "cynllun gweithredu" ("*action plan*"), yn achos ysgol a gynhelir, yw'r datganiad ysgrifenedig y cyfeirir ato yn adran 39; neu, yn achos ysgol arbennig nas cynhelir, yn adran 42;

ystyr "y Cynulliad Cenedlaethol" ("*the National Assembly*") yw Cynulliad Cenedlaethol Cymru;

ystyr "Prif Arolygydd" ("*Chief Inspector*") yw Prif Arolygydd Addysg a Hyfforddiant Ei Mawrhydi yng Nghymru;

mae i "tîm arolygu" yr ystyr a roddir i "*inspection team*" gan baragraff 3(1) o Atodlen 4;

ystyr "ysgol" ("*school*") (heb ymhelaethu ymhellach) yw ysgol y mae adran 28 yn gymwys iddi;

(3) In order to give full effect to section 41(4)(c), the reference in that provision to "the authority" is to be read, for the purposes of regulation 9(3), as a reference to the proprietor of the school.

(4) Any reference in these Regulations to a section or Schedule (without more) is a reference to a section of, or Schedule to, the 2005 Act.

PART 2

School Inspections

Interpretation: Part 2

4.-(1) In this Part of these Regulations-

"action plan" ("*cynllun gweithredu*") means, in the case of a maintained school, the written statement referred to in section 39; or, in the case of a non-maintained special school, section 42;

"appropriate authority" ("*awdurdod priodol*"), in relation to a maintained school, means the school's governing body or, if the school does not have a delegated budget, the local education authority (subject, however, to regulation 7(2));

"Chief Inspector" ("*Prif Arolygydd*") means Her Majesty's Chief Inspector of Education and Training in Wales;

"delegated budget" ("*cyllideb ddirprwyedig*") has the same meaning as in section 49 of the School Standards and Framework Act 1998;

"inspection" ("*arolygiad*") means an inspection under Chapter 3 of Part 1 of the 2005 Act (including a section 28 inspection);

"inspection team" ("*tîm arolygu*") has the meaning given by paragraph 3(1) of Schedule 4;

"maintained school" ("*ysgol a gynhelir*") means a community, foundation or voluntary school, a community or foundation special school or a maintained nursery school;

"member of the Inspectorate" ("*aelod o'r Arolygiaeth*") means the Chief Inspector, any of Her Majesty's Inspectors of Education and Training in Wales and any additional inspector appointed under paragraph 2 of Schedule 2;

"the National Assembly" ("*y Cynulliad Cenedlaethol*") means the National Assembly for Wales;

"non-maintained special school" ("*ysgol arbennig nas cynhelir*") means a special school falling within section 28(2)(d);

"registered inspector" ("*arolygydd cofrestredig*") means an inspector registered under section 25;

ystyr "ysgol a gynhelir" ("*maintained school*") yw ysgol gymunedol, sefydledig neu wirfoddol, ysgol arbennig gymunedol neu sefydledig, neu ysgol feithrin a gynhelir; ac

ystyr "ysgol arbennig nas cynhelir" ("*non-maintained special school*") yw ysgol arbennig sy'n dod o fewn adran 28(2)(d).

(2) Mae i gyfeiriadau yn y Rhan hon at blentyn sy'n derbyn gofal gan awdurdod lleol yr ystyr sydd i'r ymadrodd Saesneg cyfatebol yn adran 22(1) o Ddeddf Plant 1989(1).

(3) Mae cyfeiriadau yn y Rhan hon, sy'n nodi ei bod yn ofynnol neu nad yw'n ofynnol bod camau arbennig yn cael eu cymryd, i'w darllen yn unol ag adran 44(1).

(4) Mae cyfeiriadau yn y Rhan hon, sy'n nodi ei bod yn ofynnol neu nad yw'n ofynnol i ysgol wella'n sylweddol, i'w darllen yn unol ag adran 44(2).

Arolygwyr cofrestredig: ffi gofrestru

5. At ddibenion is-adran (3)(b) o adran 25, rhagnodir mai ffi o £150 yw'r ffi y mae'n rhaid iddi fynd gyda chais am gofrestru o dan yr adran honno.

Cyfnodau rhwng arolygiadau

6.-(1) Mae'r rheoliad hwn yn rhagnodi, at ddibenion is-adran (1) o adran 28, pa mor aml y mae'n rhaid arolygu, o dan yr adran honno, ysgolion y mae'r adran honno'n gymwys iddynt.

(2) Rhaid i'r Prif Arolygydd sicrhau bod arolygiad adran 28 yn cael ei wneud o ran pob ysgol o'r fath bob chwe blynedd.

(3) Mae'r cyfnodau'n cychwyn ar-

- (a) y dyddiad y cwblhawyd yr arolygiad diwethaf o'r ysgol (o dan Ddeddf 1996 neu Ddeddf 2005); neu
- (b) yn achos ysgol nad yw wedi'i harolygu o'r blaen (o dan y naill Ddeddf na'r llall), y dyddiad y derbyniwyd disgyblion gyntaf i'r ysgol.

Hysbysu o arolygiad

7.-(1) Pan fo arolygiad adran 28 wedi'i drefnu, rhaid i'r awdurdod priodol, at ddiben paragraff 6(a) o Atodlen 4, gymryd y cyfryw gamau y mae'n rhesymol ymarferol iddo eu cymryd i hysbysu-

- (a) yn achos ysgol a gynhelir a chanddi gyllideb ddirprwyedig, person sydd yn ei farn ef yn un o swyddogion priodol yr awdurdod addysg lleol;

(1) 1989 p.41. Diwygiwyd adran 22(1) gan Atodlen 5 i Ddeddf Llywodraeth Leol 2000 (p.22), adran 2(2) o Ddeddf Plant (Ymadael â Gofal) 2000 (p.35) ac adran 116 o Ddeddf Mabwysiadu a Phlant 2002(p.38).

"school" ("*ysgol*") (without more) means a school to which section 28 applies; and

"section 28 inspection" ("*arolygiad adran 28*") means an inspection under section 28.

(2) References in this Part to a child who is looked after by a local authority have the same meaning as in section 22(1) of the Children Act 1989(1).

(3) References in this Part to special measures being, or not being, required to be taken are to be read in accordance with section 44(1).

(4) References in this Part to a school requiring, or not requiring, significant improvement are to be read in accordance with section 44(2).

Registered inspectors: registration fee

5. For the purposes of subsection (3) (b) of section 25, there is prescribed as the fee which must accompany an application for registration under that section, a fee of £150.

Intervals for inspection

6.-(1) This regulation prescribes, for the purposes of subsection (1) of section 28, the intervals at which schools to which that section applies must be inspected under that section.

(2) The Chief Inspector must secure that a section 28 inspection is carried out in respect of every such school at intervals of six years.

(3) Intervals run from-

- (a) the date on which the last inspection of the school (under the 1996 Act or the 2005 Act) was completed; or
- (b) in the case of a school which has not previously been inspected (under either Act), the date on which pupils were first admitted to the school.

Notification of inspection

7.-(1) Where a section 28 inspection is arranged, the appropriate authority must, for the purpose of paragraph 6(a) of Schedule 4, take such steps as are reasonably practicable to notify-

- (a) in the case of a maintained school which has a delegated budget, a person appearing to them to be an appropriate officer of the local education authority;

(1) 1989 c.41. Section 22(1) was amended by Schedule 5 to the Local Government Act 2000 (c.22), section 2(2) of the Children (Leaving Care) Act 2000 (c.35) and section 116 of the Adoption and Children Act 2002(c.38).

- (b) yn achos ysgol a gynhelir nad oes ganddi gyllideb ddirprwyedig, cadeirydd y corff llywodraethu;
- (c) yn achos ysgol a chanddi lywodraethwyr sefydledig, y person sy'n penodi'r llywodraethwyr hynny ac, yn achos ysgol wirfoddol a gynorthwyr sy'n un o ysgolion yr Eglwys yng Nghymru, Eglwys Loegr neu'r Eglwys Gatholig Rufeinig, yr awdurdod esgobaethol priodol (os yw'n wahanol);
- (ch) yn achos ysgol arbennig nas cynhelir, y Cynulliad Cenedlaethol neu unrhyw awdurdod addysg lleol os yw'r Cynulliad neu'r awdurdod yn talu ffioedd o ran darparu addysg ar gyfer unrhyw berson yn yr ysgol;
- (d) yn achos unrhyw ysgol y mae un o'i disgyblion cofrestredig yn blentyn sy'n derbyn gofal gan yr awdurdod lleol, person sydd yn ei farn ef yn un o swyddogion priodol yr awdurdod lleol hwnnw; ac
- (dd) yn achos ysgol uwchradd, y cyfryw aelodau o'r gymuned fusnes leol ag y gwêl yr awdurdod priodol yn dda eu cynnwys, o roi sylw, yn arbennig, i ba mor ddymunol yw hysbysu aelodau sy'n cyflogi cyn-ddisgyblion yr ysgol neu sydd wedi eu cyflogi'n ddiweddar, o'r amser y mae'r arolygiad i'w gynnal.

(2) Yn unol â'r diffiniad o "appropriate authority" a gaiff ei gynnwys ym mharagraff 1 o Atodlen 4, yn y rheoliad hwn ac yn rheoliad 8 mae "awdurdod priodol" yn cynnwys perchennog yr ysgol, yn achos ysgol arbennig nas cynhelir.

Cyfarfod â rhieni

8. Rhaid i'r awdurdod priodol, pan fydd yn trefnu cyfarfod yn unol â pharagraff 6(b) o Atodlen 4 os arolygiad adran 28 a drefnir-

- (a) trefnu i'r cyfarfod gael ei gynnal cyn yr amser y mae'r arolygiad i gychwyn;
- (b) wrth ddewis amser a lle ar gyfer y cyfarfod, roi sylw i ba mor gyfleus ydynt i'r rhieni;
- (c) cymryd unrhyw gamau sy'n rhesymol ymarferol i hysbysu'r canlynol yn ysgrifenedig o leiaf dair wythnos ymlaen llaw o'r amser a'r lle y mae'r cyfarfod i'w gynnal-
 - (i) rhieni disgyblion cofrestredig yr ysgol ac, os yw un o'i disgyblion cofrestredig yn blentyn sy'n derbyn gofal gan awdurdod lleol, person sydd ym marn yr awdurdod priodol yn un o swyddogion priodol yr awdurdod lleol; a
 - (ii) yn achos ysgol arbennig nas cynhelir, y Cynulliad Cenedlaethol neu unrhyw awdurdod addysg lleol os yw'r Cynulliad neu'r awdurdod yn talu ffioedd o ran darparu addysg ar gyfer unrhyw berson yn

- (b) in the case of a maintained school which does not have a delegated budget, the chairman of the governing body;
- (c) in the case of a school which has foundation governors, the person who appoints those governors and, in the case of a voluntary aided school which is a Church in Wales school, a Church of England school or a Roman Catholic school, the appropriate diocesan authority (if different);
- (d) in the case of a non-maintained special school, the National Assembly or any local education authority if the Assembly or authority are paying fees in respect of the provision of education to any person at the school;
- (e) in the case of any school at which a registered pupil is a child who is looked after by the local authority, a person appearing to them to be an appropriate officer of that local authority; and
- (f) in the case of a secondary school, such members of the local business community as the appropriate authority think fit, having regard, in particular, to the desirability of notifying members who employ, or have recently employed, former pupils of the school, of the time when the inspection is to take place.

